**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 19 Awst 2019 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | P R Hood-Williams | L James |
| M H Jones | P K Jones | |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Swyddog S151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J W Jones, I E Mann, B J Rowlands a/ac R C Stewart
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill: R C Stewart

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

- Dim

3 **Cofnodion.**

- Cymeradwywyd

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

5 **Monitro Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19**

Diogelu

- Roedd gan y panel gwestiynau am rai o'r mesurau o fewn 'Diogelu' a byddant yn cyfeirio'r rhain i'r paneli perthnasol i'w harchwilio (AS8, Mesur 18, AS13)
- Dywedodd y panel fod yr amser y mae'n ei gymryd i wybodaeth gyrraedd y panel yn annerbyniol ond mae'n gysylltiedig â chylch adrodd y cyngor.
- Mae'n dda bod y perfformiad presennol yn cael ei gynnal o ystyried y toriadau cyllidebol
- CFS18 - cynnydd o 6% mewn Plant sy'n Derbyn Gofal o gymharu ag 17/18 ond mae'r tuedd yn lleihau
- Diogel 8b - Hapus bod aelodau etholedig wedi bod yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu

Addysg a Sgiliau

- Cyflawnwyd y rhan fwyaf o dargedau neu roeddent o fewn 5% o gael eu cyflawni
- EDCP18D – cynnydd o 12% yn nifer y bobl ifanc NEET o'i gymharu ag 17/18 Dangosodd carfan blwyddyn 11 fod gan 3.9% o'r garfan broffil asesu bod yn agored i niwed uchel iawn - mae angen mynegi'r ganran ar draws blwyddyn 11 i gyd, nid y bobl ifanc NEET yn unig
- EDCP18D – Cyfeirir at bobl ifanc NEET hysbys. Ymholiad gan y panel am bobl ifanc NEET anhysbys
- BBMA4 – Cwestiynau ynghylch pam mae'r targed ar gyfer prentisiaethau a hyfforddwyr yn un mor uchel gyda chyllideb sydd dan bwysau
- EDCP27/39 – Y ddau wedi methu'r targed
- EDU016a/b – Y ddau wedi methu'r targedau o drwch blewyn o ganlyniad i salwch
- EDCP40/41 – Cafodd absenoldeb effaith ar brydau ysgol am ddim

Economi ac Isadeiledd

- Roedd 86% o ddangosyddion perfformiad (DP) wedi cyrraedd eu targed gyda 57% yn gwella
- EEF002 – Cyrhaeddwyd y targed ond mae'n 53% yn is na 17/18
- ESD1 – Yr isaf ers cofnodion ond mae oedi gyda'r cynlluniau mawr
- WMT009B – Cyrhaeddwyd y targed ond mae'n is o ganlyniad i newidiadau i gasgliadau pren a haf sych gan olygu llai o wastraff gardd

Trechu Tlodi

- Cyrhaeddwyd 62% o dargedau ond dangosodd 67% ddirywiad mewn perfformiad
- Cyflawnodd y rhan fwyaf eu dangosyddion perfformiad
- HBCT01a/1b/2a/2b - y rhan fwyaf yn gostwng o ganlyniad i lai o staff a chyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae lleihau niferoedd staff wedi achosi problem yn uniongyrchol, colli profiad ac adnoddau

- POV10/11 - Nid yw'r dangosyddion perfformiad newydd yn gweithio i'w potensial llawn ond dylent wella

Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol

- CHR002 - Heb ddod i wraidd y broblem. Problemau parhaus gyda salwch staff, lleihau'r gyllideb, llai o staff yn golygu pwysau cynyddol ar y timoedd sydd ar ôl
- FINA6 - Brwydr barhaus i gydbwyso'r gyllideb
- Byddwn yn gwahodd y Dirprwy Brif Weithredwr i drafod rhai materion

Dangosyddion Cenedlaethol

- Cyflawnodd 61% eu targedau ac roedd 52% wedi gwella o'i gymharu ag 17/18
- PAM20/21/22 - Pob un wedi methu eu targedau o ganlyniad i bwysau cyllidebol
- PAM029 - Methwyd o ganlyniad i anghenion cymhleth plant
- Yr adrannau osododd eu targedau eu hunain ond mae'r Uned Cyflwyno Strategol yn adolygu ac yn herio'r rhain cyn adolygu a herio/cymeradwyo gan y TRhC
- Nid yw newid dangosyddion (cenedlaethol) yn flynyddol (gan Lywodraeth Cymru/CLlLC) yn caniatáu casglu data a dadansoddi tueddiadau
- Byddwn yn gofyn i rai Penaethiaid Gwasanaeth ddod i gyfarfodydd yn y dyfodol

6 **Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1af 2019/20**

- Cymeradwywyd yr argymhellion gan y Cabinet i Gyfarwyddwyr i ddod â chynigion i ailgydbwyso'r gyllideb ac atal gwario lle bynnag y bo'n bosib
- Mae rhan fwyaf o gynigion cyllidebol ar waith ond ar gyfeiliorn yn ariannol ar y cyfan
- Cefnogir y gyllideb â grantiau argyfwng untro Llywodraeth Cymru
- Nid oes gan unrhyw swyddog yr hawl i orwario
- Nid yw'r gyllideb sylfaenol yn gallu fforddio pwysau newydd
- Ceir cyllideb sylfaenol gwerth £3.45m ar gyfer treuliau annisgwyl ond fe'i dyblwyd eleni fel digwyddiad untro gan ddefnyddio'r gronfa wrth gefn - nid yw'r broses yn gallu parhau
- Yn gyfreithiol mae'r gyllideb wedi'i chydbwyso ar gyfer y flwyddyn ond mae'n dibynnu ar dynnu arian o'r gronfa wrth gefn a defnyddio'r arian ar gyfer treuliau annisgwyl etc
- Bydd y blynyddoedd i ddod yn anoddach byth
- Tanwariant ar gyfalaf
- Fe'i cydbwyswyd o ganlyniad i dynnu arian o'r gronfa wrth gefn a'r gronfa treuliau annisgwyl
- Mae cyflymdra a swm arbedion yn dal yn her
- Ymholiad ynghylch pam y mae'r bil trydan mor uchel
- Mae'n ddoeth cael Cronfa wrth gefn Cyfartalu Cyfalaf o hyd - bydd angen y cyfan yn y dyfodol er mwyn ariannu gwariant cyfalaf a gynllunnir ac yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

## 7 Alldro Ariannol Refeniw 2018/19

- Mae'n ddoeth cael Cronfa wrth gefn Cyfartalu Cyfalaf o hyd - bydd angen y cyfan yn y dyfodol ac yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Mae'r Gronfa wrth gefn Cyfartalu Cyfalafu yn lleihau'r risg o fforddio rhaglen gyfalaf y dyfodol
- Mae angen mwy o hyblygrwydd benthyca o ran refeniw ar gyfer ariannu benthyciadau'r rhaglen gyfalaf
- Mae'r amgylchedd yn parhau i ddioddef hyd yn oed gydag amcanion amgylcheddol a rhwymedigaethau cyfreithiol

## 8 Alldro Refeniw 2017/18 - Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

- Dim materion i'w hadrodd

## 9 Alldro cyfalaf ac ariannu 2018/19

- Eisiau eglurhad dros t127 C1/C2/C3. Â beth y mae'r rhain yn ymwneud? Am ofyn mewn llythyr

## 10 Cynllun Gwaith 2019/20

- Archifau a Ffïoedd yn y cyfarfod nesaf

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Trawsnewid Busnes a Pherfformiad**

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Economi a Strategaeth**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am

**Cadeirydd**